Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Memorandwm Dealltwriaeth Arolygwyr Cymheiriaid ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16

## Medi 2017

## Rheoli fersiwn

| Dogfen fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Hannah Roderick | Medi 2018 | Gwreiddiol |
| 1.1 | Hannah Roderick | Ionawr 2019 | Diwygio gradd arolygiad prawf, gwybodaeth bersonol a theithio a chynhaliaeth. |
| 1.2 | Hannah Roderick | Mehefin 2019 | Diwygio i'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth. |
| 1.3 | Claire Ait-Hammi | Gorffennaf 2019 | Diwygio i'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth. |

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben y memorandwm dealltwriaeth | 1 |
| **I bwy mae'r memorandwm dealltwriaeth yn berthnasol?** | **1** |
| **A Cyfrifoldebau'r cyflogwr:** | **2** |
| Dewis a recriwtio | 2 |
| Hyfforddiant | 2 |
| Defnyddio | 3 |
| Arfarniad | 3 |
| Iechyd a diogelwch | 3 |
| Indemniad | 3 |
| **B Cyfrifoldebau'r Arolygiaeth:** | **4** |
| Dewis a recriwtio | 4 |
| Hyfforddiant | 4 |
| Defnyddio | 4 |
| Arfarniad | 4 |
| Iechyd a diogelwch | 5 |
| Treuliau | 5 |
| Ariannu rhyddhau athrawon | 5 |
| Gwrthdaro buddiannau | 5 |
| **C Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid:** | **6** |
| Hyfforddiant | 6 |
| Defnyddio | 6 |
| Arfarniad | 7 |
| Iechyd a diogelwch | 7 |
| Rôl arolygwyr cymheiriaid | 7 |
| Defnyddio technoleg gwybodaeth | 8 |
| Diogelu | 8 |
| Côd Ymddygiad | 8 |
| Gwrthdaro buddiannau | 9 |
| **Atodiad A**: Cymhwysedd ar gyfer rôl arolygydd cymheiriaid | **10** |
| **Atodiad B**: Protocol ac arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid | **11** |
| **Atodiad C**: Iechyd a diogelwch y tîm arolygu | **15** |

## Cyflwyniad

### Diben y memorandwm dealltwriaeth

1 Mae’r ddogfen hon yn amlinellu rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau’r tri pharti yn gysylltiedig â chyfranogiad arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau yn y sector ôl-16.

1 Bydd arolygwyr cymheiriaid sy’n cwblhau eu hyfforddiant a’u hasesiad cychwynnol yn llwyddiannus yn cael eu rhoi ar restr a fydd yn cynnwys gwybodaeth gan gynnwys cyfeiriad e-bost, enwau, cyfeiriadau, cyflogwr ac arbenigeddau. Mae’n rhaid i arolygwyr cymheiriaid hysbysu’r Arolygiaeth am unrhyw newid i gyfeiriad neu newid perthnasol arall, fel newid enw neu gyflogwr, trwy system ar-lein Estyn ar gyfer proffiliau arolygwyr. Bydd yr Arolygiaeth yn defnyddio’r rhestr dim ond at ddiben defnyddio arolygwyr cymheiriaid a rhannu gwybodaeth ag arolygwyr cymheiriaid ynghylch datblygiadau yn yr Arolygiaeth a chyfleoedd ar gyfer datblygu a hyfforddi. Bydd arolygwyr cofnodol yn gallu gweld cyfeiriadau e-bost, enwau, cyfeiriadau ac arbenigeddau ar gyfer pob Ymgynghorydd Her ar eu Proffil Arolygydd personol at ddibenion arolygu yn unig.

2 Mae’r partïon yn cydnabod dyletswydd yr Arolygiaeth i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) ac mae’n deall y gallai fod angen i’r Arolygiaeth ddatgelu gwybodaeth benodol i drydydd parti. Bydd y cyflogwr ac arolygwyr cymheiriaid yn cynorthwyo’r Arolygiaeth i gydymffurfio â’r Ddeddf yn unol â chais rhesymol gan yr Arolygiaeth.

3 Mae’r partïon yn cydnabod y bydd arolygydd cymheiriaid ar bob adeg yn parhau i fod yn gyflogai’r cyflogwr/darparwr ac na chaiff ei ystyried yn un o gyflogeion yr Arolygiaeth. Ni fydd arolygydd cymheiriaid yn cyflwyno’i hun fel petai’n gyflogai’r Arolygiaeth nac yn asiant nac yn llefarydd ar ei rhan.

## I bwy y mae’r Memorandwm Dealltwriaeth hwn yn berthnasol?

### Partïon

4 Mae’r memorandwm dealltwriaeth hwn yn berthnasol i’r cytundeb rhwng yr Arolygiaeth, y cyflogwr/y sefydliad a’r arolygydd cymheiriaid.

5 Yn y telerau ac amodau hyn, ystyr ‘arolygydd cymheiriaid’ yw’r unigolyn sydd wedi’i enwi ar ffurflen gais berthnasol yr arolygydd cymheiriaid ac ystyr cyflogwr yw’r sefydliad a gwblhaodd y datganiad ategol mewn perthynas ag unigolyn o’r fath ar ffurflen gais o’r fath ar gyfer arolygydd cymheiriaid.

6 Daw’r Memorandwm Dealltwriaeth i rym ar ddyddiad y llythyr yn cadarnhau bod yr unigolyn wedi’i ddewis i’w hyfforddi’n arolygydd cymheiriaid a bydd yn parhau hyd nes bod un o’r partïon yn ei ganslo neu os bydd arolygwyr cymheiriaid yn newid eu cyflogwr. Os bydd arolygwyr cymheiriaid yn newid cyflogwr, bydd angen iddynt lunio cytundeb newydd gyda’r Arolygiaeth a’r cyflogwr newydd.

7 Os bydd arolygydd cymheiriaid yn cael ei benodi'n Aelod Cynulliad, yn Aelod Seneddol neu'n Aelod o Senedd Ewrop, ni fydd yr arolygydd cymheiriaid yn gymwys mwyach i gael ei ddefnyddio mewn arolygiad.

8 Gall unrhyw un o'r partïon derfynu'r cytundeb hwn trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r ddau barti arall o leiaf 30 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r terfynu i rym.

9 Yn sgil terfynu'r cytundeb hwn, bydd enw'r arolygydd cymheiriaid yn cael ei dynnu o restr yr Arolygiaeth o arolygwyr cymheiriaid cymeradwy.

## A Cyfrifoldebau'r cyflogwr

**Mae'r cyflogwr yn cytuno i'r canlynol:**

**Dewis a recriwtio**

10 Bydd y cyflogwr yn cyflwyno'i enwebiadau i'r Arolygiaeth. Bydd angen i'r cyflogwr ardystio bod ei enwebeion yn ymarferwyr a rheolwyr effeithiol a phrofedig. Wrth gytuno i aelod staff gael hyfforddiant ac asesiad cychwynnol ar gyfer bod yn arolygydd cymheiriaid, bydd y cyflogwr yn ymrwymo i ryddhau'r unigolyn ar gyfer hyfforddiant, paratoi a defnyddio, yn unol â'r cytundeb hwn.

11 Mae'n ofynnol bod pob arolygydd cymheiriaid sy'n mynychu arolygiad wedi cael tystysgrif cliriad briodol a diweddar (o fewn y tair blynedd diwethaf) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, trwy eu cyflogwr. Os bydd yr arolygydd cymheiriaid yn aelod o'r gwasanaeth diweddaru, mae'n ofynnol i'r arolygydd cymheiriaid roi caniatâd ysgrifenedig i Estyn fynd at ei dystysgrif gan y GDG, ar-lein, bob tair blynedd. Mae'r arolygiaeth yn cadw'r hawl i wirio bod hyn ar waith ar unrhyw adeg. Bydd y darparwr a'r awdurdod cyhoeddi yn hysbysu'r Arolygiaeth os daw i wybod am unrhyw beth yn gysylltiedig â chofnod yr unigolyn a allai fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i gymryd rhan mewn arolygiadau. Dylai arolygwyr cymheiriaid gysylltu â'u cyflogwr os nad ydynt yn siŵr am ddyddiad neu addasrwydd eu cliriad blaenorol.

**Hyfforddiant**

12 Bydd y cyflogwr yn rhyddhau arolygwyr cymheiriaid i'w galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddiant asesedig, a fydd yn cynnwys:

a) Cyfarfod cyn-cwrs
b) Modiwlau hyfforddiant ar-lein
c) Dau ddiwrnod o asesiadau wyneb yn wyneb
ch) Arolygiad(au) prawf

13 Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau pob rhan o'r hyfforddiant yn llwyddiannus i gymhwyso'n arolygydd cymheiriaid.

14 Trwy gefnogi cais ei haelod staff am hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid, mae'n rhaid i'r cyflogwr gytuno i ryddhau'r aelod staff ar gyfer hyfforddiant diweddaru blynyddol, gan ei fod yn orfodol ar gyfer y rôl. Os na fydd arolygydd cymheiriaid yn bresennol

mewn hyfforddiant diweddaru am ddwy flynedd yn olynol, ni fydd cyfleoedd i'w ddefnyddio yn cael eu cynnig hyd nes bydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diweddaru, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, fel salwch neu absenoldeb mamolaeth/tadolaeth.

**Defnyddio**

15 Bydd y cyflogwr yn cyflawni ei ymrwymiad i ryddhau staff yn unol â'r telerau yn y ddogfen hon. O dan amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd yn gwrthod rhyddhau staff neu'n tynnu staff yn ôl o ddyletswyddau arolygu ar fyr rybudd.

**Arfarniad**

16 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yn cwblhau arfarniad o berfformiad pob aelod o'r tîm arolygu sydd dan gontract, gan gynnwys yr arolygydd cymheiriaid. Bydd perfformiad yr arolygydd cymheiriaid mewn arolygiad yn cael ei arfarnu yn unol â'r polisi Sicrhau Ansawdd ac arweiniad cysylltiedig ar wefan Estyn.

17 Os na fydd arolygwyr cymheiriaid yn perfformio'n effeithiol yn unol â barn yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach.

**Iechyd a diogelwch**

18 Bydd y cyflogwr yn sicrhau bod ei arolygwyr cymheiriaid enwebedig o gymeriad da a'u bod wedi dangos eu gallu i weithio'n ddiogel. Mae'r cyflogwr yn cadw ei ddyletswydd statudol fel cyflogwr i ofalu'n rhesymol am ddiogelwch arolygwyr cymheiriaid, hyd yn oed pan fydd yn ymweld â sefydliadau neu gwmnïau eraill ac yn cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi arolygwyr cymheiriaid.

**Indemniad**

19 Rhaid i'r cyflogwr indemnio'r Arolygiaeth, y Goron a/neu ei Gweinidogion, a'u cyflogeion, swyddogion, gweision ac asiantau (bob un ohonynt yn "Berson sydd wedi ei Indemnio"), a chynnal yr indemniad hwnnw, mewn perthynas â:

(a) phob atebolrwydd, colled a niwed (gan gynnwys, heb gyfyngiad, colled economaidd a cholled anuniongyrchol a chanlyniadol), costau a threuliau (gan gynnwys, heb gyfyngiad, treuliau cyfreithiol) y mae Person sydd wedi ei Indemnio yn mynd iddynt; a/neu

(b) bob hawliad, gweithred ac achos y mae trydydd parti yn eu dwyn yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio; a/neu

(c) (heblaw ac i'r graddau yr oedd unrhyw golled, niwed, anaf personol neu farwolaeth a ddioddefodd yr arolygydd cymheiriaid wedi'i achosi gan esgeulustod y Person hwnnw sydd wedi ei Indemnio), pob hawliad, gweithred ac achos a ddygir yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio gan neu ar ran yr arolygydd cymheiriaid; ym mhob achos yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn perthynas â chyfranogiad yr arolygydd cymheiriaid yn y rhaglen arolygwyr cymheiriaid.

## B Cyfrifoldebau'r Arolygiaeth

**Mae'r arolygiaeth yn cytuno i'r canlynol:**

**Dewis a recriwtio**

20 Bydd hysbysebion yn gwahodd ceisiadau i hyfforddi'n arolygydd cymheiriaid yn cael eu rhoi ar wefan yr Arolygiaeth. Hefyd, gallai'r Arolygiaeth gysylltu â chyflogwyr a gwahodd ceisiadau am hyfforddiant gan ddarpar arolygwyr cymheiriaid. Bydd yr Arolygiaeth yn ystyried ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr addas i gael hyfforddiant. Byddant yn cael eu nodi ar sail y meini prawf a gyflwynir yn **Atodiad A**. Yn ogystal, bydd unrhyw ymarferwr presennol sydd wedi'i ailhyfforddi'n arolygydd ychwanegol gan yr Arolygiaeth ar gyfer cylch arolygu 2017-2023 yn gymwys i fod yn arolygydd cymheiriaid.

**Hyfforddiant**

21 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu rhaglen hyfforddi ac asesu ar gyfer darpar arolygwyr cymheiriaid. Dim ond y rhai sy'n cwblhau'r asesiad yn llwyddiannus fydd yn cael eu penodi'n arolygwyr cymheiriaid. Dim ond yr arolygwyr cymheiriaid hynny sydd â thystysgrif ddilys a phriodol y GDG fydd yn cael eu gwahodd i hyfforddiant cychwynnol/diweddaru.

**Defnyddio**

22 Bydd yr Arolygiaeth yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid am uchafswm o 8 diwrnod mewn unrhyw arolygiad unigol ac, fel arfer, am uchafswm o 10 niwrnod ym mhob blwyddyn academaidd. (Yn achos dysgu yn y gwaith, gallai hyn godi i 20 diwrnod mewn blwyddyn galendr). Fel arfer, ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio mewn arolygiad ychwanegol heb gytundeb y cyflogwr.

23 Fel arfer, bydd yr Arolygiaeth yn rhoi tymor o rybudd i arolygwyr cymheiriaid a'u darparwr wrth wahodd arolygwyr cymheiriaid i gymryd rhan mewn arolygiad craidd, ymweliad arolygu dilynol neu arolwg thematig. Mae'r arolygiaeth yn cadw'r hawl i dynnu cynnig defnyddio yn ôl ar fyr-rybudd, o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fydd newidiadau arwyddocaol yn y ddarpariaeth sydd i'w harolygu.

24 Bydd yr Arolygiaeth yn sicrhau bod y cydlynydd arolygu (CydAr) yn bwynt cyfeirio cyffredinol cyn arolygiadau a bydd yr Arolygydd Cofnodol yn bwynt cyswllt ar gyfer arolygwyr cymheiriaid yn ystod arolygiad ac yn syth wedi arolygiad.

**Arfarniad**

25 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yn cwblhau arfarniad o berfformiad pob aelod o'r tîm arolygu sydd dan gontract, gan gynnwys yr arolygydd cymheiriaid. Bydd perfformiad arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiad yn cael ei arfarnu yn ôl y polisi Sicrhau Ansawdd ac arweiniad cysylltiedig ar wefan Estyn.

26 Os na fydd arolygwyr cymheiriaid yn perfformio'n effeithiol yn unol â barn yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach.

**Iechyd a diogelwch**

27 Wrth gydymffurfio â deddfwriaeth ac arweiniad iechyd a diogelwch, mae'r arolygwyr yn disgwyl bod y darparwr sy'n cael ei arolygu wedi cynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch addas neu'n gallu gwirio bod asesiadau risg iechyd a diogelwch wedi'u cynnal cyn arolygiad.

**Caiff materion iechyd a diogelwch eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer darpar arolygwyr cymheiriaid.**

**Treuliau**

28 Bydd yr Arolygiaeth yn ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol i arolygwyr cymheiriaid pan gânt eu defnyddio mewn arolygiadau, gan ddefnyddio'r cyfraddau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Milltiredd Car** | **45c y filltir** |
| **Cinio (uchafswm) (bydd angen derbynebau)** | **Hyd at £9** |
| **Pryd bwyd, heblaw alcohol (bydd angen derbynebau)** | **Hyd at £27** |

**D.S. lle defnyddir cludiant cyhoeddus neu telir ffioedd parcio, atodwch dderbynebau i'r ffurflen hawlio er mwyn cael ad-daliad.**.

29 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety i arolygwyr cymheiriaid pan fyddant yn byw dros 40 milltir i ffwrdd o leoliad yr arolygiad.

30 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety pan fydd y darpar arolygydd cymheiriaid yn byw dros 40 milltir i ffwrdd o leoliad y cwrs hyfforddiant ac asesu cychwynnol. Ad-delir costau teithio i ddarpar arolygwyr cymheiriaid ar gyfer cyrsiau hyfforddiant ac asesu cychwynnol.

31 Ni fydd yr Arolygiaeth yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth arolygwyr cymheiriaid i gyrsiau hyfforddiant diweddaru.

**Ariannu rhyddhau arolygwyr cymheiriaid**

32 Bydd yr Arolygiaeth yn cyfrannu £75 y dydd ar gyfer rhyddhau staff am y cyfnod ar safle'r darparwr sy'n cael ei arolygu, ond nid ar gyfer presenoldeb yng nghyrsiau hyfforddi neu gyrsiau diweddaru Estyn.

**Gwrthdaro buddiannau**

33 Ni fydd yr Arolygiaeth yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau sefydliadau, darparwyr neu gwmnïau sy'n awgrymu bod buddiannau yn gwrthdaro. Bydd gwrthdaro yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol ynghylch sefydliadau eraill ac unrhyw ddyletswyddau a gyflawnwyd fel dilyswyr allanol. Dylai arolygwyr cymheiriaid gyfeirio at y Polisi Gwrthdaro Buddiannau ar wefan Estyn a diweddaru eu proffil Arolygydd gan roi manylion am wrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig.

## C Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid

**Mae'r arolygydd cymheiriaid yn cytuno i'r canlynol:**

**Hyfforddiant**

34 Mae arolygwyr cymheiriaid yn cytuno i fynychu'r rhaglen hyfforddi ac asesu, a fydd yn cynnwys:

- **Cyfarfod cyn-cwrs**

  Cyfarfod hanner diwrnod cyn-cwrs, tua mis cyn y diwrnodau asesu wyneb yn wyneb.

- **Modiwlau hyfforddi ar-lein**

  Bydd y modiwl hwn yn cynnwys tua 15 awr o hyfforddiant ar-lein a bydd disgwyl i'r darpar arolygydd cymheiriaid ei gwblhau o fewn cyfnod o 6 wythnos, **cyn** ail ran yr hyfforddiant.

- **Dau ddiwrnod o asesiadau wyneb yn wyneb**

  Mae hyn yn cynnwys asesiadau llafar ac ysgrifenedig.

- **Arolygiad(au) prawf**

  Fel arfer, mae'n rhaid i'r darpar arolygydd cymheiriaid gael gradd C neu uwch ar Ffurflen Arfarnu Arolygydd (FfAA) gan yr Arolygydd Cofnodol ar ddiwedd yr arolygiad er mwyn i Estyn ei ddefnyddio mewn arolygiadau pellach.

35 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety ac yn ad-dalu darpar arolygwyr cymheiriaid am deithio i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol. Ni fydd yr Arolygiaeth yn talu am ryddhau arolygwyr cymheiriaid i fod yn bresennol mewn cyrsiau hyfforddiant neu gyrsiau diweddaru.

36 Bydd cyrsiau hyfforddiant diweddaru blynyddol o ddiwrnod o leiaf yn cael eu cynnal ar gyfer pob arolygydd cymheiriaid. Mae presenoldeb mewn hyfforddiant diweddaru blynyddol yn orfodol ar gyfer y rôl. Byddai methu bod yn bresennol mewn hyfforddiant diweddaru blynyddol am ddwy flynedd yn olynol yn golygu na fyddai cyfleoedd defnyddio yn cael eu cynnig i arolygwyr cymheiriaid hyd nes byddant wedi cyflawni hyfforddiant diweddaru, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

**Defnyddio**

37 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cadarnhau eu bod wedi cael gwiriad clirio priodol a diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a byddant yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth am unrhyw ffactorau perthnasol yn gysylltiedig â'u GDG fel amod o gael eu defnyddio. Bydd y gwiriad wedi'i wneud o fewn y 3 blynedd diwethaf, gyda gwiriad yn ôl y categori *Gweithlu Plant* (os yw'n wiriad manwl). Dylai Arolygwyr Cymheiriaid gyfeirio at bolisi Estyn ar ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wefan Estyn.

38 Cyn yr arolygiad, bydd angen i arolygwyr cymheiriaid fod yn gyfarwydd â'r papur briffio gan yr Arolygydd Cymheiriaid, sy'n amlinellu'r wybodaeth sylfaenol am drefn yr arolygiad. Yn gynnar yn ystod yr arolygiad, bydd angen i arolygwyr cymheiriaid archwilio dogfennau allweddol, fel adroddiad hunanasesu'r darparwr, gwybodaeth am y darparwr a chwestiynau sy'n dod i'r amlwg sy'n cael eu nodi gan yr Arolygydd Cofnodol.

39 Bydd y wybodaeth hon ar gael yn Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) y darparwr. Yn ogystal, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn darparu'r wybodaeth hon ar ddechrau'r arolygiad. Ni fydd angen unrhyw weithgarwch arolygu, fel craffu ar ddogfennau'r darparwr, yn ystod y cyfnod cyn wythnos yr arolygiad.

**Arfarniad**

40 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yn cwblhau arfarniad o berfformiad arolygwyr cymheiriaid. Bydd y broses yn cynnwys cyfle i arolygwyr cymheiriaid gwblhau hunanasesiad. Yna, bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yn cwblhau arfarniad cyffredinol o berfformiad. Bydd manylion pellach am y system arfarnu yn cael eu darparu yn yr hyfforddiant cychwynnol ac maent ar gael ar wefan Estyn.

41 Os na fydd arolygwyr cymheiriaid yn perfformio'n effeithiol yn unol â barn yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach.

**Iechyd a diogelwch**

42 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn dilyn yr arweiniad iechyd a diogelwch a ddarparwyd gan yr Arolygydd Cofnodol fel rhan o friff yr arolygiad. Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill y mae eu gweithredoedd neu eu hanwaith yn effeithio arnynt yn ystod yr arolygiad. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad C**.

43 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain, yn sensitif i ddiogelwch pobl eraill ac yn cydweithredu'n llawn â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch sydd ar waith. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad B**.

**Rôl arolygwyr cymheiriaid**

44 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn gweithio ochr yn ochr â'r Arolygydd Cofnodol sy'n cynnal yr arolygiad penodol, ac o dan ei arweiniad.

45 Caiff dyletswyddau arolygwyr cymheiriaid eu rhestru yn **Atodiad B** y Protocol a'r Arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid.

46 Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn neilltuo tasgau penodol i arolygwyr cymheiriaid ar ddechrau'r arolygiad.

## Gofynion meddalwedd yr YAR

47 Bydd yn ofynnol i arolygwyr cymheiriaid ddod â gliniadur at eu defnydd eu hunain yn ystod y cyfnod arolygu ac arno:

- Microsoft Word 2010 (neu ddiweddarach)
- cysylltiad â'r rhyngrwyd (rhaid bod eich gliniadur wedi'i alluogi ar gyfer WiFi neu raid i chi drefnu'ch dull eich hun o gysylltu â'r rhyngrwyd)
- system weithredu Windows (XP neu uwch)
- porwr rhyngrwyd (Edge, Internet Explorer 10 neu 11 neu fersiwn ddiweddaraf Chrome/Firefox/Safari)

**Sylwch: i ddefnyddio system dempledi'r Ffurflenni Barnau ar yr YAR, bydd arnoch angen fersiwn lawn o MS Word 2010 (neu ddiweddarach)**

48 Mae system yr YAR yn adnodd seiliedig ar Microsoft, felly mae perygl na ellir defnyddio cyfrifiaduron Apple Mac yn llwyddiannus pan fyddant yn defnyddio 'PC emulation'. Ni ellir defnyddio llechi (gan gynnwys iPads) ar hyn o bryd.

49 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn darparu copi electronig o'r Ffurflen Farnau sy'n cynnwys eu canfyddiadau arolygu a'r dystiolaeth ategol. Rhaid darparu'r Ffurflen Farnau wedi'i llenwi gan ddefnyddio Microsoft Word 2010 (neu ddiweddarach) a defnyddio'r templed a ddarperir yn yr Ystafell Arolygu Rithwir ar ddechrau'r arolygiad. Mae'r holl wybodaeth a thystiolaeth yn eiddo bob amser i'r Arolygiaeth.

50 Mae'n rhaid i arolygwyr cymheiriaid gadw at Bolisi Sicrwydd Gwybodaeth yr Arolygiaeth, sydd ar gael ar y wefan.

## Diogelu

51 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymgyfarwyddo â pholisi Diogelu'r Arolygiaeth, ac yn cadw ato, ar arolygiad – Polisi a Gweithdrefnau Estyn ar gyfer Diogelu

## Côd Ymddygiad

52 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cadw at y 'Côd ymddygiad ar gyfer arolygwyr' yn y llawlyfr arweiniad perthnasol ar gyfer arolygu darparwyr ôl-16. Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cynnal cyfrinachedd llwyr ar bob adeg. Ni all gwybodaeth na dogfennau sy'n benodol i'r sefydliad gael eu copïo na'u rhannu gydag unrhyw unigolyn sydd heb gysylltiad â'r arolygiad. Mae sail dystiolaeth yr arolygiad fel y'i disgrifir yn y dogfennau arweiniad yn eiddo i'r Arolygiaeth.

53 Yn ddarostyngedig i'r angen am gyfrinachedd, fel yr amlinellir yn **Atodiad B**, gall arolygwyr cymheiriaid rannu gyda'u lleoliad gwaith eu hunain wybodaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad am brosesau a gweithdrefnau'r Arolygiaeth. Fodd bynnag, os byddant yn dymuno rhannu dogfennau penodol neu enghreifftiau o arfer a welwyd yn ystod yr arolygiad, yna rhaid iddynt gael caniatâd y sefydliad dan sylw.

54 Caiff arolygwyr cymheiriaid eu hannog i ddefnyddio’r profiad a gafwyd trwy eu hyfforddiant a’u defnydd fel arolygydd cymheiriaid yn eu lleoliad gwaith eu hunain i gynorthwyo â’r broses wella a datblygu a gweithredu gweithdrefnau hunanarfarnu.

**Gwrthdaro buddiannau**

55 Cyn mynychu cwrs hyfforddiant, bydd arolygwyr cymheiriaid yn datgan unrhyw fuddiannau personol neu broffesiynol posibl sy’n gwrthdaro yn gysylltiedig â sefydliadau eraill. Bydd y gwrthdaro hwn yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol am sefydliadau eraill ac unrhyw ddyletswyddau y gwnaethant ymgymryd â nhw fel dilyswyr allanol. Yn sgil hynny, mae’n rhaid i arolygwyr cymheiriaid roi gwybod i’r Arolygiaeth am unrhyw newid i’w statws cyn gynted ag y bydd yn digwydd.

56 Ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio mewn sefydliad y maent wedi’u heithrio rhagddo o fewn cyfnod tair blynedd. Fodd bynnag, gellid ymestyn y cyfnod hwn ddwy flynedd arall yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os oes gan arolygwyr cymheiriaid unrhyw amheuaeth neu maent yn nodi unrhyw amgyffrediad o wrthdaro buddiannau, rhaid iddynt roi gwybod i’r Arolygiaeth ar unwaith.

## Atodiad A: Cymhwysedd ar gyfer rôl yr arolygydd cymheiriaid

**Bydd arolygwyr yn cael eu cyflogi mewn darparwyr ôl-16 yng Nghymru ar hyn o bryd a byddai angen iddynt arddangos POB un o'r canlynol:**

- ymarferwyr profiadol ac effeithiol gyda chyfrifoldebau rheoli/cydlynu
- o leiaf 3 blynedd o brofiad o ddarparu addysg a hyfforddiant yn effeithiol
- cymwysterau addysgu a/neu hyfforddiant perthnasol a/neu gymwysterau proffesiynol perthnasol
- cymeriad da a'r gallu i weithio'n ddiogel
- gwybodaeth gyfredol (yn berthnasol i'r sector dan sylw)

**Mae rhinweddau hanfodol arolygwyr cymheiriaid yn cynnwys:**

- gonestrwydd, uniondeb a phriodoldeb
- cyfathrebu llafar da
- medrau ysgrifennu datblygedig
- medrau TGCh da
- y gallu i hel eich meddyliau'n rhesymegol
- y gallu i bwyso a mesur tystiolaeth yn ofalus
- y gallu i lunio barnau cadarn
- y gallu i esbonio ac amddiffyn arfarniadau
- y gallu i weithio fel aelod o dîm
- parodrwydd a gallu i weithio'n hyblyg

Gall arolygwyr cymheiriaid sydd wedi cyflawni tri arolygiad neu fwy yn foddhaol, wneud cais i newid eu rôl i rôl Arolygydd Ychwanegol Estyn pan na fyddant yn cael eu cyflogi mwyach mewn swydd barhaol gyda darparwr addysg yng Nghymru. Dylai arolygwyr cymheiriaid roi gwybod i Estyn pan fydd eu statws cyflogaeth yn newid ac y byddant yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer rôl Arolygydd Cymheiriaid. Gwneir y penodiad yn ôl disgresiwn grŵp Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Estyn.

Gellir gofyn i arolygwyr cymheiriaid yrru i wahanol safleoedd darparwyr, neu i leoliadau hyfforddi neu asesu yn y gwaith. Os nad yw'r arolygydd cymheiriaid yn gyrru neu os nad yw'n dymuno gyrru tra bydd ar arolygiad, dylai roi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol pan fyddant yn cysylltu am y tro cyntaf cyn yr arolygiad.

## **Atodiad B: Protocol ac arweiniad ar gyfer arolygwyr** cymheiriaid

**Egwyddorion cyffredinol**

Daw arolygwyr cymheiriaid â safbwynt ymarferwr presennol i arolygiad. Y nod yw i bob tîm arolygu gynnwys arolygydd cymheiriaid. Mae arolygwyr cymheiriaid yn aelodau llawn o'r tîm a bydd ganddynt yr un ystod a math o gyfrifoldebau ag aelodau eraill o'r tîm.

Bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymweld â sesiynau, yn cyfweld â staff a dysgwyr, ac yn adolygu tystiolaeth yn yr un modd ag aelodau tîm eraill a bydd yn gallu cyfrannu at farnau'r tîm ar bob agwedd sy'n cael ei harolygu. Yn yr un modd ag aelodau tîm eraill, mae'n ofynnol i arolygwyr cymheiriaid gyflwyno'r dystiolaeth a'r barnau gofynnol ar y ffurflen farnau electronig a ddarperir yn yr YAR, cyn gadael y darparwr ar ddiwedd arolygiad.

Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu cyflogi ar sail amser llawn neu ran-amser parhaol mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Byddant yn ymarferwyr profiadol ym maes addysgu neu hyfforddi, dysgu a rheoli, ac yn gyfarwydd â'r diweddaraf ynghylch un maes neu fwy y mae'r Arolygiaeth yn eu harolygu.

**Mae cyfranogiad arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau:**

- yn cyfrannu at arbenigedd timau arolygu ac yn ymestyn y broses arolygu
- yn hybu dealltwriaeth y darparwr o arolygu
- yn galluogi rhannu arfer dda a rhagorol
- yn helpu i ddatblygu'r medrau y mae ar ddarparwyr eu hangen i gyflawni eu hunanarfarnu yn effeithiol
- yn galluogi unigolion i ennill gwell dealltwriaeth o'r broses arolygu yn ogystal â darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain

**Rôl arolygwyr cymheiriaid**

Bydd arolygwyr cymheiriaid yn aelod llawn o'r tîm arolygu, er nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr arolygiaeth. Bydd yn ofynnol iddynt:

- arsylwi sesiynau a gweithgareddau eraill
- gwrando ar ddysgwyr
- craffu ar samplau o waith
- cymryd rhan mewn trafodaethau â staff ac eraill
- archwilio dogfennau
- arfarnu effaith polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r darparwr
- arwain ar faes arolygu, agwedd neu gwestiwn sy'n dod i'r amlwg, ysgrifennu adrannau o'r adroddiad, y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Arolygydd Cofnodol ar ddiwedd y cyfnod arolygu gan ddefnyddio'r ffurflen electronig a ddarperir gan yr Arolygiaeth

**Cyfrifoldebau arolygydd cymheiriaid**

Bydd arolygwyr cymheiriaid:

- yn meddu ar wybodaeth ymarferol am arweiniad y sector ar gyfer y sector perthnasol
- yn gweithredu yn unol â'r cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr
- yn gyfarwydd â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl arolygwyr cymheiriaid
- yn meddu ar ddealltwriaeth o'r nodyn briffio cyn-arolygiad, adroddiad hunanasesu'r darparwr ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am berfformiad
- yn cynllunio agweddau ar yr arolygiad, fel sylw i ddosbarthiadau neu sesiynau, dogfennau a chyfarfodydd, trwy drafod â'r Arolygydd Cofnodol
- yn cwblhau dogfennau arolygu, gan gynnwys ffurflenni arfarnu electronig
- yn cyfrannu at gyfarfodydd y tîm arolygu
- yn cyfrannu at farnau corfforaethol
- yn arwain ar feysydd arolygu, agweddau a chwestiynau sy'n dod i'r amlwg, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol
- yn ysgrifennu adrannau o'r adroddiad, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol
- yn mynychu unrhyw gyfarfod a gynhelir yn ystod wythnos yr arolygiad, pan roddir adborth i'r darparwr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod yr arolygiad

**Ni fydd angen i arolygwyr cymheiriaid:**

- fynychu unrhyw gyfarfodydd yn gysylltiedig â'r arolygiad cyn cyfnod yr arolygiad
- mynychu unrhyw gyfarfodydd a gynhelir ar ôl cyfnod yr arolygiad ar y safle
- adolygu unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n dod i law ar ôl cyfnod yr arolygiad ar y safle

**Cyfrifoldebau Arolygydd Cofnodol**

Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn:

- sefydlu cysylltiad ag arolygwyr cymheiriaid
- amlinellu rôl benodol arolygwyr cymheiriaid yn yr arolygiad
- gwirio bod y cydlynydd arolygu wedi trefnu i arolygwyr cymheiriaid fynd at bob dogfen berthnasol drwy'r YAR cyn dechrau'r arolygiad
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio fel aelod llawn o'r tîm
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn gwybod am y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd tîm a gweithgareddau arolygu eraill
- sicrhau ansawdd gwaith arolygwyr cymheiriaid
- rhoi adborth ar berfformiad arolygwyr cymheiriaid
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn gwybod am werthoedd craidd a pholisïau'r Arolygiaeth (er enghraifft mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a bwlio) ac yn eu dilyn

## Gweithgareddau yn y broses arolygu

### Cyn yr arolygiad

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ ymgyfarwyddo ag arweiniad y sector<br>➢ ymgyfarwyddo â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl yr arolygydd cymheiriaid<br>➢ derbyn cyfarwyddiadau ar gyfer mynd i mewn i'r Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) er mwyn gallu cael at yr holl ddogfennau angenrheidiol |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ cael enw a gwybodaeth gefndir am yr arolygydd cymheiriaid trwy'r YAR a'r system Proffiliau Arolygwyr a neilltuo rolau a chyfrifoldebau i'r arolygydd cymheiriaid<br>➢ cadarnhau gyda'r arolygydd cymheiriaid fod y cydlynydd arolygu wedi trefnu iddo/iddi allu mynd at yr YAR cyn dechrau'r arolygiad |

### Yn ystod yr arolygiad a chyn gadael y darparwr

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol, ymgymryd â'r un tasgau ag aelodau eraill y tîm yn y cyfarfod tîm cyn i'r arolygiad ddechrau<br>➢ gweithio trwy gydol yr arolygiad o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol<br>➢ cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm<br>➢ cyfrannu at farnau corfforaethol<br>➢ archwilio gwaith dysgwyr<br>➢ arsylwi sesiynau a chwblhau teithiau dysgu a gweithgareddau eraill<br>➢ gwrando ar ddysgwyr<br>➢ cwblhau pob dogfen fel y bo'n briodol<br>➢ rhoi adborth llafar byr i staff ar ôl arsylwi sesiynau<br>➢ cyfrannu at goladu canfyddiadau, tystiolaeth ategol ac ysgrifennu'r adroddiad arolygu<br>➢ sicrhau bod yr Arolygydd Cofnodol yn cael pob dogfen ysgrifenedig berthnasol yn y fformat rhagnodedig, mynychu unrhyw gyfarfodydd adborth ar agweddau a gynhelir yn ystod wythnos yr arolygiad a, lle y bo'n briodol, cynorthwyo â rhoi adborth yn gysylltiedig â'r agwedd/agweddau a/neu'r maes/meysydd arolygu y mae'n gyfrifol amdanynt<br>➢ dychwelyd holl ddogfennau arolygu'r darparwr |

| | |
|---|---|
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ monitro gwaith yr arolygydd cymheiriaid a darparu cymorth fel y bo'n briodol<br>➢ sicrhau bod yr arolygydd cymheiriaid yn chwarae rhan lawn yn yr arolygiad<br>➢ sicrhau bod yr arolygydd cymheiriaid yn cyfrannu at farnau corfforaethol |

**Ar ôl yr arolygiad**

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ adolygu'r Ffurflen Arfarnu Arolygydd (FfAA) drwy'r YAR |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ rhoi adborth i'r arolygydd cymheiriaid am ansawdd ei waith yn ystod yr arolygiad a chwblhau'r ffurflen arfarnu arolygydd (FfAA) yn yr YAR. |

Dylai adborth yr Arolygydd Cofnodol i arolygwyr cymheiriaid ymwneud â chael tystiolaeth, llunio barnau, cyfathrebu ac ymddygiad.

**Defnyddio arolygwyr cymheiriaid**

Bydd arolygwyr cymheiriaid:

- yn cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd sydd â'r un nodweddion ieithyddol, lle bynnag y bo'n bosibl
- yn cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau personol na phroffesiynol
- ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio os yw eu cyflogwr/ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol sydd angen ailarolygiad

Bydd yr Arolygiaeth yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiad, ond ni all roi unrhyw sicrwydd o hynny.

**Hyfforddiant**

Amcanion y cwrs hyfforddi arolygwyr cymheiriaid a hyfforddiant diweddaru blynyddol yw galluogi darpar arolygwyr cymheiriaid i ddeall y broses arolygu, yr egwyddorion sy'n sylfaen i'r broses a'r meini prawf ar gyfer llunio barnau.

Ni fydd darpar arolygwyr cymheiriaid yn gymwys i fynychu'r cwrs hyfforddiant asesedig cychwynnol er mwyn cymhwyso'n arolygydd cymheiriaid os yw eu cyflogwr/darparwr mewn categori gweithgarwch dilynol sydd angen ailarolygiad.

**Arfarniad**

Bydd yr Arolygiaeth yn monitro perfformiad arolygwyr cymheiriaid. Bydd copi o'r ffurflen arfarnu arolygydd (FfAA) wedi'i llenwi ar gael i arolygwyr cymheiriaid drwy eu proffil Arolygydd.

## Atodiad C:  Iechyd a diogelwch y tîm arolygu

Mae gan bob arolygydd ac arolygydd cymheiriaid gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod eu harferion gweithio trwy gydol yr arolygiad yn cyd-fynd â rheoliadau iechyd a diogelwch.

Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn gwneud yn siŵr bod y darparwr yn hysbysu'r tîm arolygu am y trefniadau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â'r arolygiad.  Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod am yr holl weithdrefnau ymadael mewn argyfwng yn ogystal â'r rhagofalon i'w cymryd mewn ardaloedd ar safle'r darparwr lle y bydd lefel uchel bosibl o risg yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch.  Ni fydd unrhyw aelod o'r tîm arolygu yn cyflawni unrhyw weithgareddau arolygu cyn cael briff priodol ar iechyd a diogelwch.

**Cyn yr arolygiad**

Bydd yr arolygiaeth yn gofyn i'r sefydliad/sefydliadau sy'n cael ei arolygu/eu harolygu i:

- ddarparu copïau o'u polisïau a'u gweithdrefnau iechyd a diogelwch cyfredol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr ag unrhyw rai o'u safleoedd a lle y mae dysgwyr wedi'u lleoli
- darparu copi o 'Ddatganiad Cyfredol y Darparwr o Reolaeth Iechyd a Diogelwch', os bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am hynny
- llenwi ffurflen gytundeb yr enwebai (a'r cytundeb cyswllt ansawdd lle bo'r angen) sy'n cynnwys cadarnhad bod y darparwyr wedi ymgymryd â phob asesiad risg angenrheidiol.  Dylai'r Arolygydd Cofnodol, pennaeth y sefydliad a'r enwebai lofnodi'r ffurflen gytundeb
- trefnu cyflwyniad cyffredinol ar iechyd a diogelwch i'r holl arolygwyr ar ddechrau'r arolygiad
- nodi gwybodaeth bellach am iechyd a diogelwch y gallai fod angen i arolygwyr ei hystyried yn ystod wythnos yr arolygiad.  Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am ymweliadau oddi ar y safle.  Bydd angen i'r darparwr roi gwybodaeth benodol yn gysylltiedig â'r sampl o ymweliadau a, lle y bo'n briodol, darparu cyflwyniad arbenigol i arolygwyr â chyfrifoldebau penodol
- sicrhau bod pob car cwmni a char ym mherchenogaeth breifat sy'n cael eu defnyddio i gludo arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr yn ystod yr arolygiad wedi'u hyswirio at y diben hwnnw
- cadarnhau enw/enwau'r person/personau dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant/amddiffyn oedolion agored i niwed

Os bydd pryderon, dylai'r Arolygiaeth ddwyn y rhain i sylw'r uwch swyddog priodol yn y darparwr cyn gynted â phosibl.

## Yn ystod yr arolygiad

Ar ddechrau'r arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn atgoffa'r tîm am eu cyfrifoldebau o ran eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill. Dylent arfer y cyfrifoldeb hwn trwy:

- ystyried y cyngor ar iechyd a diogelwch a ddarperir yn ystod cyrsiau hyfforddiant, gan yr Arolygydd Cofnodol ym mhob arolygiad a chan gynrychiolwyr y darparwr sy'n cael ei arolygu, gan ddefnyddio'u profiad eu hunain o arfer iechyd a diogelwch a'u harbenigedd yn eu maes gwaith eu hunain
- bod yn wyliadwrus wrth fwrw ymlaen â'u gwaith a chymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain
- sicrhau bod eu car wedi'i yswirio at ddefnydd busnes ac nad ydynt yn derbyn lifftiau gan aelodau o staff y sefydliad oni bai eu bod wedi cael sicrwydd bod yswiriant busnes a threfniadau eraill priodol ar waith
- rhoi digon o amser ar gyfer teithio rhwng safleoedd a gyrru yn unol â'r gyfraith
- sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau amddiffyn plant/amddiffyn oedolion agored i niwed yr Arolygiaeth a gweithredu ar y rhain lle y bo'n briodol
- ystyried arfer dda wrth ymdrin â phobl a allai fod yn bryderus neu wedi cynhyrfu, ac wrth amddiffyn eu diogelwch a'u huniondeb personol nhw
- adnabod sefyllfaoedd peryglus a chamu i ffwrdd ohonynt, lle y bo'n briodol

Nid yw arolygwyr ac arolygwyr cymheiriaid yn gyfrifol am arolygu p'un a yw darparwyr yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch; caiff hyn ei archwilio gan awdurdodau eraill. Fodd bynnag, bydd yr Arolygydd Cofnodol ac aelodau'r tîm arolygu yn hysbysu'r darparwr ar unwaith am unrhyw faterion sy'n effeithio'n ddifrifol ar iechyd, diogelwch a lles y dysgwyr.

Lle y ceir problemau penodol, brys, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn paratoi nodyn i reolwr iechyd a diogelwch corff ariannu'r darparwr, gan anfon copïau ohono at uwch gydweithwyr yn yr Arolygiaeth.

Dylai pob arolygydd gofnodi cyswllt mewn argyfwng ar eu Proffil Arolygydd unigol, a fydd ar gael i'r Arolygydd Cofnodol os bydd argyfwng